



Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

4 Ebrill 2023

Annwyl Russell,

Llythyr a chwestiynau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Chwefror – yn ymwneud â monitro cynnydd yn erbyn y targedau cenedlaethol ar gyfer adfer gofal a gynlluniwyd.

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Chwefror mewn perthynas â'ch rôl yn monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau amseroedd aros.

Rwy'n falch bod y pwyllgor wedi nodi'r cynnydd y mae'r GIG wedi'i wneud yn y maes hwn; rwyf innau hefyd yn cydnabod bod angen mwy o gyflymder. Rwyf fi a'm swyddogion yn glir iawn ynghylch ein disgwyliadau ac, ar y cyd â'r GIG, rydym yn gweithio'n galed i gyflawni yn erbyn y cynllun. Rwyf wedi ymateb i bob un o'r cwestiynau rydych chi wedi'u codi ac wedi rhoi'r sefyllfa'n gryno i chi. Gan fod nifer fawr o argymhellion, mae'r ymatebion wedi'u cynnwys mewn Atodiad i'r llythyr hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Atodiad

Rhif	Cwestiwn
Targedau adfer	
1	<p>Er gwaethaf cyhoeddi cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio Llywodraeth Cymru, mae amseroedd aros yng Nghymru yn parhau i godi mewn rhai arbenigeddau. Mae'r rhagamcanion sy'n seiliedig ar y cynnydd hyd yn hyn yn awgrymu, oni bai bod gweithgarwch yn cynyddu'n sylweddol, nad yw'n debygol y bydd targedau adfer Llywodraeth Cymru yn cael eu cyrraedd. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.</p>
Ymateb	<p>Roeddem yn cydnabod bod y targedau roeddem yn eu gosod yn ein cynllun yn her. Er hynny, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig sbarduno cyflymder o ran y gwaith adfer. Er nad yw ein targed cyntaf wedi ei gyrraedd, rydym wedi gweld cynnydd arwyddocaol.</p> <p>Cafwyd gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm yr amseroedd aros yn y pedwar mis diwethaf, rhywbeth nad yw Lloegr wedi'i gyflawni wrth fynd ati i adfer. Bydd amrywiaeth ar draws byrddau iechyd ac arbenigeddau heriol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu yn 2023/24 wrth i gynlluniau rhanbarthol gael eu datblygu a'u rhoi ar waith ac wrth i lwybrau cenedlaethol gael eu datblygu i ddarparu llwybrau gofal sy'n seiliedig ar werth.</p> <p>Trawsnewid: Mae cyflawni pethau'n wahanol yn allweddol i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd cynyddol rhwng y galw a'r capasiti. Mae angen i ni nid yn unig wella, ond hefyd sicrhau ein bod yn adeiladu gwasanaethau mwy cynaliadwy, darbodus ac amserol at y dyfodol. Mae'r Strategaeth Trawsnewid Cleifion Allanol diwygiedig 2023-26 yn adlewyrchu hyn. Bydd hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan bolisi newydd (manyleb gwasanaeth cenedlaethol) sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er mwyn er mwyn gwneud gwaith hyrwyddo ac atal a pharatoi pobl yn effeithiol ar gyfer triniaeth. Mae hyn yn adeiladu ar y cysyniad o "Aros yn Dda". Mae cam cyntaf y fanyleb i'w gyhoeddi ym mis Mehefin.</p> <p>Mae £50 miliwn o'r gronfa adfer wedi'i ddal yn ôl heb ei ddosbarthu i fyrddau iechyd unigol er mwyn helpu i ddatblygu datrysiadau lleol a rhanbarthol. Meysydd penodol yw gallu diagnostig a thriniaeth. Bydd yr adnodd yn cael ei ddyrannu yn ystod 2023/24 er mwyn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynyddu capasiti yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun adfer.</p>
2	<p>Pa effaith ydych chi'n rhagweld y bydd pwysau gaeaf 2022-23 a'r camau gweithredu diwydiannol diweddar a gymerwyd gan staff GIG Cymru yn ei chael ar ofal wedi'i gynllunio a chyflawni'r targedau adfer, yn enwedig y targed cyntaf</p>

	(erbyn diwedd 2022, ni fydd neb yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf).
Ymateb	<p>Fel y nodwyd wrth gyhoeddi data mis Rhagfyr, ni chyrhaeddwyd y targed o leihau arosiadau cleifion allanol i lai na 52 wythnos. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd arwyddocaol. Fe wnaethom flaenoriaethu targed ar gyfer amseroedd aros cleifion allanol yng Nghymru gan ein bod yn deall pwysigrwydd cael adolygiad cynnar fel rhan o lwybr claf. Heb os, mae gweithredu diwydiannol a phwysau'r gaeaf wedi effeithio ar nifer y cleifion sy'n aros yn fwy na'r targed penodedig. Mae gwybodaeth reoli fodd bynnag yn dangos bod gweithgarwch wedi adfer yn gyflym a bod y lefelau cyffredinol o weithgarwch cleifion allanol a thriniaeth bellach yn gyson uwch na'n lefelau yn 2029 cyn Covid.</p> <p>Er na chafodd y targed ei gyrraedd, cafodd dros 320,000 o lwybrau eu tynnu o'r rhestrau aros rhwng Ionawr 2022 a Rhagfyr 2022.</p> <p>Ffactor fwy arwyddocaol yn y ffaith na chyflawnwyd y garreg filltir mewn adrannau cleifion allanol yw'r gwahaniaeth yn niferoedd y cleifion brys a chleifion rheolaidd a welwyd gan fyrddau iechyd cyn ac ar ôl y pandemig. O fewn 9 mis cyntaf 2022/23 gwelwyd 60,000 yn fwy o gleifion brys nag yn yr un cyfnod cyn y pandemig. Mae blaenoriaethu llwybrau brys yn lleihau'r capasiti sydd ar gael i ddarparu gofal i gleifion sy'n cael eu blaenoriaethu'n glinigol fel rhai arferol, sydd wedyn yn aros yn hirach.</p> <p>Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi gweld y nifer uchaf o lwybrau canser a amheuir (dros 10,000 bob mis) yn cael eu hisraddio (dweud wrth gleifion nad oes ganddynt ganser). Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i gydbwyso ein dull gweithredu er mwyn blaenoriaethu'r rhai sy'n flaenoriaeth glinigol a'r rhai sydd wedi bod yn aros yn hir.</p> <p>Ym mis Rhagfyr 2022, ychydig o dan 9 o bob 10 o lwybrau cleifion allanol oedd yn aros dros 52 wythnos ar draws <u>saith</u> arbenigedd yn unig, ac roedd gan 33 o arbenigeddau ddim neu lai na 100 o lwybrau agored.</p>
	A oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r llwybrau gwella ar gyfer pob bwrdd iechyd er mwyn mynd i'r afael â'r modd y cânt eu cyflawni a bodloni'r mesurau cenedlaethol i glirio'r ôl groniad? Os felly, pa newidiadau sydd wedi'u gwneud, ac a yw pob bwrdd iechyd ar y trywydd iawn?
Ymateb	Fel y nodwyd uchod, roedd y targedau a osodwyd yn y cynllun yn heriol ac er nad yw'r targedau gwreiddiol wedi'u cyflawni rydym yn parhau i yrru'r gwaith o gyflawni'r targedau gyda dyddiadau

	<p>diwygiedig ym Mehefin 2023. Mae'r addasiadau hyn yn cydnabod maint yr her a'r angen parhaus i gydbwyso'r adnoddau rhwng cleifion clinigol brys a'r rhai sydd wedi bod yn aros yn hir.</p> <p>Rwyf wedi rhoi'r dasg i'r Tîm Gwella ac Adfer Gofal a Gynlluniwyd yn y Weithrediaeth GIG newydd i gefnogi a herio byrddau iechyd ar y camau gweithredu a fydd yn helpu i gyflawni'r gofyniad hwn, ac y cyd â'm swyddogion, i ddal y GIG yn atebol am eu darpariaeth yn y maes hwn.</p>
	<p>Rydych wedi dweud o'r blaen "fe fydd hi'n cymryd tymor Senedd llawn a llawer o waith caled i adfer wedi effaith y pandemig".¹ A ydych o'r farn o hyd y gall gofal wedi'i gynllunio ddychwelyd i'r lefelau amseroedd aros cyn y pandemig erbyn diwedd y Senedd hon?</p>
Ymateb	<p>Bydd, fe fydd hi'n cymryd tymor Senedd llawn i adfer. Fodd bynnag, mae'n dda gen i nodi, fel y nodwyd mewn ymateb blaenorol, ein bod wedi dechrau gweld rhai arwyddion cynnar o newid oherwydd gwaith caled staff y GIG yng Nghymru. Ers diwedd mis Hydref, rydym wedi gweld gostyngiad misol yn ein rhestr aros gyfan, rhywbeth na welwyd yn Lloegr gan fod eu rhestr aros gyfan yn parhau i gynyddu.</p> <p>Rydym wedi ymrwymo nid yn unig i leihau'r ôl-groniad ond hefyd i adeiladu modelau gwasanaethau cynaliadwy lle byddwn yn ailgynllunio llwybrau gofal a gynlluniwyd ar sail gofal sy'n seiliedig ar werth, a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl Cymru.</p>
Manyllder data	
	<p>A ydych yn fodlon rhannu mwy o ddata manwl (neu wybodaeth reoli sy'n cydnabod cyfyngiadau'r data hyn) gyda'r Pwyllgor ynghylch nifer y llwybrau a gaewyd drwy nodi'n union faint o lwybrau a gaewyd o ganlyniad i glaf yn dechrau triniaeth a faint o lwybrau cleifion sydd wedi'u tynnu oddi ar y rhestr am resymau eraill.</p>
Ymateb	<p>Gellir cau llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT) am amryw o resymau. Dim ond un o'r rhesymau yw cychwyn y driniaeth. Nid ydym yn dal nac yn adrodd ar ddata am lwybrau caeedig ar sail y rheswm pam y cawsant eu cau. I'r rhan fwyaf o gleifion allanol, bydd y llwybrau nad ydynt yn rhai llawfeddygol yn cau ar ôl y diagnosis a dechrau'r cynllun triniaeth, mewn ymateb i ddewis cleifion neu ofyniad clinigol i gau llwybr am gyfnod.</p> <p>Nid yw'r rheswm dros gau llwybr ar gael ar hyn o bryd ar y Rhestr Orlhain Cleifion (PTL). Fodd bynnag, mae'r ffrwd waith Set Ddata Cleifion Allanol wedi'i Moderneiddio yn ymchwilio i weld a ellir cofnodi ac adrodd ar ddata canlyniadau manylach. Maent yn edrych ar hyn ar gyfer 2023-24.</p>

	Mae llwybrau cleifion wedi'u tynnu oddi ar y rhestr am resymau eraill (h.y. beth fu effaith yr ymarferion dilysu rhestrau aros ac a yw'r canlyniadau yn gyson ar draws byrddau iechyd).
Ymateb	Mae dilysu yn rhan o'r gwaith o reoli rhestrau aros yn effeithiol, ac mae adolygu rheolaidd yn cael ei ystyried yn arfer da. Yn ystod Covid nid oedd y dilysu hwn yn cael ei wneud bob amser. Mae cyllid gofal a gynlluniwyd wedi'i ddefnyddio gan nifer o Fyrddau Iechyd i wneud dilysiad mewnol o'r rhestrau aros ac mae gostyngiadau wedi'u nodi yn y Byrddau Iechyd hyn. Ond, o ystyried maint yr her i gyrraedd ein huchelgeisiau ar gyfer uchafswm amseroedd aros, cafodd ymarfer dilysu ei gomisiynu ar draws ardaloedd pedwar Bwrdd Iechyd sef Betsi Cadwaladr, Cwm Taf Morgannwg, Hywel Dda a Bae Abertawe i gynorthwyo â chywirdeb eu rhestrau aros. Ar 23 Mawrth, roedd 141,000 o gleifion wedi'u dilysu gyda 9,500 o'r rheini wedi'u dileu ac fe gafodd 5,000 yn rhagor eu hargymell i'r bwrdd iechyd ar gyfer rhagor o gyswllt ac adolygu.
Adfer gwahanol arbenigeddau	
	Mae sawl arbenigedd lle mae'r amseroedd aros yn arbennig o hir, fel trawma ac orthopedeg, y glust, y trwyn a'r gwddf (ENT) ac offthalmoleg. Yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, pa arbenigeddau ydych chi'n rhagweld fydd yn cyflawni pob un o'r targedau adfer, a pha arbenigeddau na fyddant.
Ymateb	Ar hyn o bryd credir na fydd saith arbenigedd yn cyrraedd y targed aros RTT 104 wythnos erbyn mis Mawrth 2023 ar raddfa o fwy na 1,000 o gleifion ar gyfer pob maes arbenigol (Orthopaedeg, Offthalmoleg, y Glust, y Trwyn a'r Gwddf, Llawdriniaeth Gyffredinol, Wroleg, Gynecoleg a Llawdriniaeth y Geg. Bydd orthopaedeg yn cyfrif am draean o gyfanswm maint y llwybrau sy'n debygol o beidio â chyrraedd y targed. Yn ôl data rheoli, bydd gan chwe arbenigedd arall rhwng 100 a 500 llwybr fydd yn methu'r targed.
	Sut mae llwyddiant yn edrych i chi o ran "y rhan fwyaf o arbenigeddau" yn cyrraedd y targedau adfer (h.y. 50 y cant, 95 y cant ac ati).
Ymateb	Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'r her ar draws pob arbenigedd ond yn cydnabod bod rhai yn fwy o her nag eraill: arbenigeddau llawfeddygol yn arbennig.

	<p>Ar hyn o bryd mae gennym saith maes lle mae'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd yn ei gweld yn heriol cyrraedd y targedau. Rydym yn newid ffocws y grwpiau clinigol cenedlaethol yn y rhaglen gofal a gynlluniwyd i ddarparu arweinyddiaeth a her i rannu arferion da a chefnogi gweithredu ffyrdd newydd o weithio i drawsnewid darpariaeth gwasanaethau a lleihau amseroedd aros yn y meysydd hyn.</p> <p>O fis Mehefin 2023, mae prosiectau data rheoli yn dangos y bydd offthalmoleg, y glust y trwyn a'r gwrddf, dermatoleg ac wroleg yn dal i fod â nifer sylweddol o bobl sy'n aros dros 52 wythnos. Mae disgwyl i dri arbenigedd arall fod â hyd at 1,000 o gleifion yn aros mwy na'r targed penodedig. Mae'r tri maes hyn yn adlewyrchu heriau penodol i wasanaethau mewn byrddau iechyd unigol yn hytrach na meysydd sy'n peri pryder cenedlaethol.</p> <p>O ran y targed 104 wythnos, mae data rheoli ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd pump o'r saith arbenigedd a fydd yn methu targed mis Mawrth yn parhau i brofi heriau sylweddol o ran cyflawni'r targed erbyn mis Mehefin, yn enwedig orthopaedeg, llawdriniaeth gyffredinol ac wroleg. Rydym yn parhau i archwilio sut y gallwn liniaru hyn ymhellach.</p>
<p>Trawma ac orthopedeg</p>	
	<p>O ran trawma ac orthopaedeg, mae'r byrddau iechyd wedi datblygu cynlluniau gweithredu i weithredu cynigion GIRFT (Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf) a'r llwybrau cenedlaethol. A yw'r cynlluniau gweithredu hyn wedi'u cyhoeddi ac os felly, a oes modd eu rhannu â'r Pwyllgor.</p>
<p>Ymateb</p>	<p>Mae'r cynnydd o ran gweithredu adroddiadau GiRFT lleol yn rhan o gefnogaeth Gweithrediaeth y GIG, wedi'i thargedu drwy'r tîm Gwella ac Adfer Gofal wedi'i Gynllunio.</p> <p>Bydd y maes hwn yn cael ei reoli a'i adrodd drwy'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Orthopaedeg, NCSOS a chynrychiolwyr penodedig y bwrdd iechyd. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd drwy'r rhwydwaith gweithredu clinigol orthopedig sy'n sicrhau arweinyddiaeth ac arweiniad clinigol.</p> <p>Bydd diffyg cyflawni neu bryderon ynghylch cyflymder y cyflawni yn cael ei uwchgyfeirio yn ôl y galw i ffurfio rhan o gyfarfodydd atebolrwydd Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith o adrodd yn dechrau'n ffurfiol o fis Ebrill 2023 fel rhan o ailgynllunio grwpiau clinigol y rhaglen gofal a gynlluniwyd.</p>

	<p>Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaethoch ysgrifennu atom i ddweud bod y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, yn dilyn uwchgynhadledd orthopedig y Gweinidogion ym mis Awst, wedi ysgrifennu at y byrddau iechyd i "er mwyn amlinellu'r sefyllfa o safbwynt cleifion sy'n aros yn hir, gan nodi y dylai'r rhai sy'n aros dros 104 wythnos gael eu rhoi yn yr un categori â chleifion brys wrth drefnu apwyntiadau". A allech gadarnhau a yw hyn yn berthnasol i lwybrau trawma ac orthopedig yn unig, neu i bob llwybr claf.</p>
Ymateb	<p>Mae'n berthnasol i bob llwybr aros hir. Fodd bynnag, mae blaenoriaeth glinigol o fewn awdurdod clinigwyr lleol. Fel rhan o'r broses weithredu, bydd yr arweinwyr clinigol ar draws y grwpiau clinigol gofal a gynlluniwyd yn cael y dasg o weithio gyda thimau clinigol lleol i ddeall sut mae blaenoriaeth glinigol, cleifion sy'n aros yn hir ac is-arbenigo clinigol yn cael eu rheoli, ac i gynyddu'r driniaeth 'trin yn eu tro'.</p>
Diagnosteg	
	<p>Ym mis Rhagfyr 2022, fe ddywedoch chi wrthym fod bwrdd rhaglen diagnosteg genedlaethol wedi cael ei sefydlu ym mis Mai 2022, ac "ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cwblhau strategaeth ddiagnosteg ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau". Fe ddywedoch chi hefyd y byddai'r strategaeth yn cynnwys mesurau fel hybiau diagnostig rhanbarthol er mwyn cynyddu capasiti. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith bwrdd y rhaglen, gan gynnwys pryd y caiff y strategaeth ddiagnosteg ei chyhoeddi a'r cynnydd o ran datblygu hybiau diagnostig rhanbarthol a mesurau eraill i gynyddu capasiti diagnostig.</p>
Ymateb	<p>Roedd y fframwaith cynllunio ar gyfer 2023/24 yn nodi bod sefydlu hybiau diagnostig yn ofyniad allweddol i Fyrddau Iechyd erbyn mis Mawrth 2024. Mae £50 miliwn o'r gronfa adfer £170 miliwn wedi'i gadw i gefnogi'r gwaith o gyflenwi hybiau diagnostig a chapasiti uwch yn rhanbarthol.</p> <p>Gyda safle Llantrisant wedi'i brynu bellach gan Lywodraeth Cymru, mae rhanbarth y De-ddwyrain yn gweithio ar gynlluniau ar gyfer Hyb Rhanbarthol Diagnosteg fel rhan o gontract gwasanaeth a reolir fel y gellir datblygu'r gweithlu sydd ei angen i reoli'r cyfleusterau hyn mewn ffordd gynaliadwy dros y cyfnod hwn. Archwilir hefyd a all y safle ddarparu ar gyfer Uned Endosgopi ranbarthol gan gynnwys dwy theatr y gellir eu defnyddio fel Academi Hyfforddi Sgiliau Clinigol Endosgopi. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda rhanbarthau'r De-orllewin a'r Gogledd ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer capasiti diagnostig parhaus.</p>

	<p>Bydd angen rhagor o waith modelu galw a chapasiti a phrosesau caffael i gyflwni'r gwaith o roi hybiau ar waith yn lleol.</p> <p>Mae disgwyl i'r strategaeth ddiagnosteg gael ei chyhoeddi ym mis Ebrill a bydd yn manylu ar fesurau pellach ar gyfer adfer a gwella gwasanaethau diagnostig.</p>
	<p>Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £51 miliwn i "helpu i sicrhau bod gan GIG Cymru y cyfleusterau diagnostig mwyaf modern sy'n defnyddio'r dulliau delweddu diweddaraf. Bydd ansawdd y delweddau'n gwella, a fydd yn helpu i roi diagnosis cynharach a chywirach o lawer o glefydau cyffredin, gan gynnwys canser". A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran uwchraddio offer diagnostig a thechnoleg delweddu.</p>
Ymateb	<p>Mae'r prosiect Offer Delweddu Cenedlaethol a Blaenoriaethau Cyfalaf yn symud i ail gam y prosiect. Mae'r cam hwn yn blaenoriaethu ac yn datblygu'r argymhellion ar gyfer cynlluniau cyfalaf i ddisodli cyfarpar delweddu ar lefel genedlaethol. Gweler y tabl yn atodiad 1 sy'n rhoi crynodeb o'r cynnydd hyd yma o ran y buddsoddiad £51m.</p>
Canser	
	<p>Maes sy'n peri pryder yn y data yw perfformiad yn erbyn y targed canser, gyda dim ond 53.9 y cant o lwybrau cleifion yn cyrraedd y targed adfer ym mis Tachwedd 2022. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i wella amseroedd aros canser, yn benodol ar gyfer y canserau sydd â'r amseroedd aros hiraf megis canserau gynaecelegol, y pen a'r gwddf ac wrolegol.</p>
Ymateb	<p>Mae cael gwared ag ôl-groniadau yn effeithio ar gyflawni'r targed hwn, gan fod llwybrau canser yn cael eu hadrodd ar sail cau llwybrau. Mae'r byrddau iechyd yn rhoi blaenoriaeth i gael gwared ar lwybrau sydd eisoes dros y targed 62 diwrnod. Wrth iddynt eu lleihau, mae hyn yn effeithio ar y targed sy'n edrych ar ganran y llwybrau sy'n cael eu trin bob mis o dan 62 diwrnod.</p> <p>Gofynnodd yr uwchgynhadledd Canser ddiwedd mis Mawrth i'r byrddau iechyd roi crynodeb o'u cynlluniau lleol i wella'r ddarpariaeth yn y tri maes rydych wedi tynnu sylw atynt. Byddant yn cael eu monitro yn erbyn y cynlluniau hyn wrth symud ymlaen.</p>
	<p>A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r Uwchgynadledau Gweinidogol a gynhaliwyd ddiwedd 2022</p>

	mewn perthynas ag offthalmoleg, gofal brys, a'r glust, y trwyn a'r gwddf.
Ymateb	<p>Mae nifer o uwchgynadleddau Gweinidogol wedi'u cynnal, gan gynnwys offthalmoleg, gofal brys, y glust, y trwyn a'r geg, ac yn fwy diweddar, ail uwchgynhadledd orthopedig.</p> <p>Mae'r uwchgynadleddau hyn wedi rhoi cyfle i'r gwasanaeth roi diweddariadau i swyddogion ar y cynnydd y maent yn ei wneud wrth weithredu'r argymhellion a wnaed yn y gwahanol adroddiadau, gan gynnwys adroddiadau GiRFT ac argymhellion y Rhaglen Chwe Nod.</p> <p>Fe wnaeth pob un o'r uwchgynadleddau ystyried yr heriau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu i ddychwelyd i lefel sy'n diwallu anghenion y boblogaeth y maen nhw'n ei gwasanaethu, gan roi sylw arbennig i feysydd penodol. Yn yr uwchgynhadledd offthalmoleg rhoddwyd sylw i gataractau a glawcoma; yn yr uwchgynhadledd ENT, llwybrau cynaliadwy, ymyriadau nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnal a chanser; ac yn yr uwchgynhadledd orthopedig, y cynnydd a wnaed gan sefydliadau ers yr uwchgynhadledd orthopedig gyntaf.</p> <p>Cafwyd cyflwyniadau gan fyrddau iechyd, a roddodd ddiweddariad unigol a rhanbarthol, trafodaethau ar sut y gallwn gefnogi ein gilydd i wella, a'r cyfleoedd oedd ar gael i sefydliadau weithredu llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.</p>
Y gweithlu	
	I ba raddau mae heriau'r gweithlu o ran iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithio ar y cynnydd tuag at gyflawni'r targedau adfer? Amlinellwch beth yw'r heriau penodol i'r gweithlu, a sut maent yn effeithio ar gynnydd.
Ymateb	<p>Mae heriau gweithlu mewn nifer o fyrddau iechyd. Yn benodol, mae'r byrddau iechyd wedi nodi pwysau o ran ymgynghorwyr Anaesthetig, Offthalmig ac Wroleg, yn ogystal â heriau o ran staffio theatrau.</p> <p>Mae'r byrddau iechyd wedi dweud bod yr heriau hyn o ran y gweithlu wedi lleihau neu arafu eu gallu i ddarparu lefelau hanesyddol o weithgarwch.</p>
	A ydych yn hyderus fod y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu a gyhoeddwyd ar 1 Chweawfror 2023 yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r heriau hyn i'r gweithlu, a bod digon o adnoddau ariannol a staff ar waith i weithredu'r

	<p>cynllun? Amlinellwch hefyd sut y bydd y cynnydd o ran gweithredu'r cynllun yn cael ei fesur a'i adrodd i'r Senedd.</p>
<p>Ymateb</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Roedd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu yn ymrwymiad yn y Rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022. - Mae'r Cynllun yn adeiladu ar y cyfeiriad strategol yn Cymru Iachach: Ein Cynllun Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gydnabod yr angen am weithredu cyflym ar y cyd ar rai blaenoriaethau allweddol er mwyn ehangu a chyflymu'r cynnydd yng ngoleuni'r pwysau presennol - Bydd Bwrdd Gweithredu Strategol ar y Gweithlu yn cael ei gadeirio gan Judith Paget a bydd yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. - Bydd y Bwrdd yn sicrhau cysondeb rhwng camau gweithredu trawsbynciol ac atebolrwydd ar y cyd. - Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cynnydd misol ac adroddiadau risg â ffocws gan bob sefydliad arweiniol a bydd yn adrodd bob chwarter i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. - Byddem yn cynnig adroddiad cynnydd blynyddol i'r Senedd.

Atodiad 1

Bwrdd Iechyd	Blaenoriaeth	Safle	System	Costau'r prosiect (£M)	Statws y prosiect ar 14 Mawrth 2023
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	1	Amryw	Uwchsain	£1.440	Cyflenwyd y cyfan a'u rhoi mewn gwasanaeth clinigol.
	2	NHH	CT	£2.120	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
	3	Amryw	4 Ystafell DR	£1.900	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
	4	YB Gwent	CT	£2.120	Y system i'w chyflenwi 18 Mawrth 2023, yn unol â'r rhaglen ar gyfer comisiynu i wasanaeth clinigol ar unwaith
			£7.580		
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	1	YMH	Uwchraddio MRI	£1.040	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
	2	YMH	CT	£2.920	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
	3	Amryw	6 Ystafell DR	£2.345	3 uned wedi'u cyflenwi a'u rhoi mewn gwasanaeth clinigol. 3 ar y gweill a byddant mewn gwasanaeth clinigol yn Ebrill 2023/
	4	YGC	Fflworosgopi	£1.320	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
			£7.625		
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1	YALI	MRI	£2.140	Mae'r uned yn y DU a bydd mewn gwasanaeth clinigol ganol 2023. Ychydig o oedi o ran system anadlu mecanyddol
	2	YAC	4 Ystafell DR	£1.900	Cyflenwyd 2 system a'u rhoi mewn gwasanaeth clinigol, y 3ydd yn cael ei chomisiynu i ddechrau'r defnydd clinigol ym mis Ebrill a'r 4ydd yn cael ei gosod yn y clinig toresgyrn i ddechrau'r defnydd clinigol yn unol â'r rhaglen ym mis Mai 2023
	3	YALI	Fflworosgopi	£1.430	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.

Bwrdd lechyd	Blaen-oriaeth	Safle	System	Costau'r prosiect (£M)	Statws y prosiect ar 14 Mawrth 2023
	4	YAC	CT	£2.240	Y system yn cael ei chyflenwi 18 Mawrth 2023, yn unol â'r rhaglen ar gyfer comisiynu i wasanaeth clinigol ar unwaith
				£7.710	
Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1	YTC	Uwchsain a Chwistrellydd CT	£0.160	Cyflenwyd y cyfan a'u rhoi mewn gwasanaeth clinigol.
	2	YTC	C-Arm	£0.120	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
	3	YTC	Gama	£1.180	Y system yn mynd drwy'r profion comisiynu olaf a bydd yn dechrau ar y defnydd clinigol ym mis Ebrill 2023.
	4	Amryw	5 Ystafell DR	£3.250	Pob un heblaw un mewn gwasanaeth clinigol, yr uned derfynol yn cael ei gosod ar hyn o bryd cyn mynd i wasanaeth clinigol ym mis Ebrill
	5	YB Morg	Uwchraddio MRI	£0.970	Gosodwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
				£5.680	
Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda	1	YTPH	CT	£2.400	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
	2	YBG	CT	£2.400	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
	3	Amryw	Uwchsain/Dwysawyr Delweddu	£2.292	Cyflenwyd a rhoddwyd mewn gwasanaeth clinigol.
	4	Amryw	4 Ystafell DR	£2.200	3 uned wedi'u chyflenwi, Bronglais i'w chyflenwi 24 Mawrth i'w chomisiynu i wasanaeth clinigol ar unwaith
	5	Amryw	1 ystafell fflworosgopi	£2.820	Cyflawni 24 Mawrth 2023 i'w chomisiynu i wasanaeth clinigol ar unwaith
				£12.112	

Bwrdd lechyd	Blaen-oriaeth	Safle	System	Costau'r prosiect (£M)	Statws y prosiect ar 14 Mawrth 2023
Bwrdd lechyd Prifysgol Bae Abertawe	1	YT	MRI	£2.790	Cyflenwi 25 Mai 2023 i'w gomisiynu i wasanaeth clinigol ar unwaith
	2	Sing.	CT	£2.400	Y cyflenwi wedi'i gynllunio ar gyfer 24 Ebrill 2023 i'w gomisiynu i wasanaeth clinigol ar unwaith
	3	CNPT	CT	£2.720	Cyflenwi 9 Mai i'w gomisiynu i wasanaeth clinigol ar unwaith
	4	CNPT	Gama	£2.180	Y gosodiad yn cael ei ddylunio, y system wedi'i harchebu a disgwylir iddi ddechrau'r gwasanaeth clinigol cyn Tachwedd 2023
	5	CNPT	Ystafell DR	£0.620	Cyflenwi 3 Ebrill 2023 i'w chomisiynu i wasanaeth clinigol ar unwaith
				£10.710	
			Cyfanswm	£51.417	